

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 16eg Gorffennaf 2018.**

**PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris  
Cyng. Michael Rayner, Cyng. John Owen, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng Dylan Jones , Cyng. Arwel Ll. Jones Cyng Austin Roberts,

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain, Mehefin 2018.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019**

Cadarnhaodd y clerc fod y siec am £500 o rodd ariannol wedi cael eu hanfon i'r pwyllgor Apêl Llanddaged a Maenan. Derbyniwyd gwybodaeth fod y noson adloniant 'Miri Maes' a gafwyd ei gynnal ym Maes Llanddaged yn ddiweddar wedi codi swm sylweddol o arian tuag at yr apêl.

**CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Cyng. John Owen a Cyng. Michael Rayner am osod tap/ruban o gwmpas y darnau peryglus o amgylch y wal ym maes parcio, Cegin Wen.

Nododd Cyng. Michael Rayner ei fod wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Mr Elwyn Williams un o gontractwyr lleol i drafod atgyweirio'r wal yn y maes parcio. Bydd yn anfon amcangyfrif y pris i atgyweirio'r wal drwy'r post i'r clerc

**PONT Y GARTH, MAENAN**

Cadarnhawyd fod yr arwyddion 'Anaddas i gerbydau trwm' wedi cael ei gosod ym Mhont y Garth, Maenan.

**CYLLID**

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19.

**CYNLLUNIO:**

Cais rhif 0/45319 - Adeiladu Ardal / milodfa Ymarfer Corff bob tywydd i Geffylau 22m x 45m - Tŷ Capel Pwllterfyn, Ffordd Maenan, Maenan, Llanrwst LI26 0YH

Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad

**GOHEBIAETH**

- 1) Llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (2018-2033).  
Pasiwyd i roi copi o'r llythyr ar wefan y Cyngor.
- 2) Llythyr gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanddaged yn diolch am y rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned at gostau Eisteddfod yr Urdd.

3) Anfoneb gan Mr Arfon Parry 'Cradur.com' tal am gwe-letua blynyddol - £24.40.

#### CYNNAL A CHADW

- 1) Angen llenwi tyllau ffordd Pant Llin i Lidiart y Mynydd, Llanddoged.
- 2) Dwr yn rhedeg yn y ffordd wrth Goed Celyn, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
- 3) Tyllau yn y ffordd wrth allt Cae Brychiad Llanddoged.
- 4) Tyllau yn y ffordd wrth Pencraig i Gefn Llech, Maenan.
- 5) Twll yn y ffordd rhwng Belmont a Sarn Ddu, Llanddoged.
- 6) Cais i gael arwydd newydd I Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
- 7) Dau dwll yn y ffordd ar Allt Goch, Llanddoged (un yn waelod yr allt a thwll arall nes ymlaen).
- 8) Angen clirio llwybr cyhoeddus ' Llwybr Ceffyl' Bridal Path Rhif 44 a chlirio llwybr Rhif 45.